

Buddsoddi a Datblygu: Y Cynghorydd Russell Goodway

UCHELGAIS PRIFDDINAS



Mae Caerdydd wedi dod yn lle gwyb i ymwelwyr ac yn lle gwell fyth i'n trigolion. Mae'n ddinas ifanc a thalentog sydd mewn sefyllfa gref o ran twf economaidd. Mae'r potensial yma, ond mae angen ei ddatgloi. Mewn hinsawdd economaidd sydd eisoes yn effeithio'n bennaf ar yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ac mewn Prydain ôl-Brexit does dim amheuaeth mai'r brifddinas yw cyfle economaidd gorau Cymru. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn achub ar y cyfle hwn.

Mae angen i ni foderneiddio seilwaith ein dinas, yn arbennig ei seilwaith digidol, denu mwy o fewnffuddsoddi, creu mwy o gwmnïau lleol gwell, a sicrhau bod system addysg well o lawer yn sbarduno budd economaidd hirdymor.

Mae angen i ni nodi'r projectau a'r mentrau fydd yn cyflawni uchelgais y ddinas a sicrhau eu bod yn arwain at swyddi a chyfleoedd i'r bobl sydd eu hangen a'u bod o fudd i bob cymuned yn y ddinas a thu hwnt.

Bydd hefyd angen i ni fanteisio ar botensial buddsoddi sectorau gwerth uchel allweddol: y diwydiannau creadigol a digidol a gwasanaethau ariannol a phroffesiynol – sectorau y mae eisoes gan Gaerdydd gwmnïau o broffil rhyngwladol ynddynt.

Rhaid i'n prifysgolion fod yn ganolog i'n huchelgeisiau, yn wahanol i'r gorffennol. Bydd angen i weledigaeth Caerdydd fod yn fwy craff, soffistigedig a mentrus a bydd angen iddi gael eu seilio ar set o egwyddorion sylfaenol:

- Mae angen i Gaerdydd fod yn uchelgeisiol i'w phobl, ond rhaid i'r dyheadau hynny arwain at gynlluniau cadarn a realistig;
- Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod projectau y ddinas yn arwain at lewyrch economaidd, a rhaid i'r buddiannau gael eu gweld ym mhob un o gymunedau'r ddinas.
- Mae angen i Gaerdydd fod 'ar agor i fusnes'. Mae angen i'r Cyngor ymgysylltu'n weithredol â busnesau a chofleidio potensial llawn partneriaethau cyhoeddus-breifat sydd wedi gwasanaethu'r ddinas cystal yn y gorffennol.
- Rhaid manteisio ar rôl Caerdydd fel sbardun economi'r ddinas-ranbarth a'i hyrwyddo – er budd Caerdydd a'r cyffiniau.
- Rhaid i Gaerdydd barhau i fod yn ddinas ryngwladol eangfrydig a all weithredu fel pwynt cyswllt rhwng Cymru a'r byd.
- Rhaid i sail sgiliau gadarn Caerdydd arwain at swyddi o werth uwch a chyflogau uwch.

Byddwn yn:

- Blaenoriaethu **Arena Dan Do Amlbwrpas** yn y lleoliad gorau posibl i sicrhau y gall ddenu'r digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol gorau.
- **Gosod gweledigaeth newydd i Fae Caerdydd fel lleoliad hamdden** drwy sicrhau atyniad newydd i ymwelwyr, creu cyfleuster "traeth" parhaol ac adfywio'r strategaeth ar gyfer Pentref Chwaraeon Rhyngwladol.
- **Datblygu canol y ddinas fel lleoliad busnes a buddsoddi**, gan gynnwys:
 - Cwblhau ardal fusnes newydd a phorth i Gymru i'r gogledd a'r de o Orsaf Caerdydd Canolog.
 - Darparu cyfnewidfa drafnidiaeth newydd a fydd wrth wraidd Metro Caerdydd.
 - Creu gofod newydd a rennir i gerddwyr, beicwyr a cherbydau ar draws canol y ddinas.
- Gweithio gyda datblygwyr i gyflwyno cynlluniau ar gyfer **adfywio Dumballs Road**.
- **Lansio Strategaeth Ddiwydiannol newydd ar gyfer Dwyrain Caerdydd**, wedi'i halinio â chwblhau Ffordd Gyswllt Ddwyreiniol y Bae.
- **Ehangu 'Coridor Gwybodaeth' Caerdydd** drwy weithio gyda phartneriaid i sicrhau buddsoddiad pellach yng nghampws Parc Maendy, Ysbyty'r Waun, Ysbyty newydd arfaethedig Felindre a'r Parc Arloesi GE yn Coryton.
- **Gweithredu fel eiriolwr i'r fenter Cyflog Byw Gwirioneddol**, gyda'r bwriad o sicrhau bod cyflogwyr newydd yn y ddinas yn ei mabwysiadu.
- Ystyried **sefydlu mentrau cymdeithasol mewn cymunedau** gyda sefydliadau partner i gefnogi gwasanaethau rheoli ystadau a gwasanaethau cymorth eraill y Cyngor.
- **Sefydlu Fforwm Busnes y Ddinas** i helpu i ddatblygu a gweithredu agenda buddsoddi a datblygu'r Cyngor.
- **Creu mwy o gyfleoedd prentisiaethau, lleoliadau gwaith a swyddi** drwy weithio gyda'r gymuned fusnes, ysgolion a phobl ifanc.
- Cyflwyno strategaeth a arweinir gan fusnesau sydd wedi'i dylunio i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw yn **adeiladau mwyaf hanesyddol** y ddinas, a rhoi'r dechnoleg sydd ei hangen arnynt i'n galluogi i ddod o hyd i ddefnydd newydd a fydd yn cyfrannu at gyflawni agenda datblygu economaidd y Cyngor.
- Gweithio gyda phartneriaid yn y sector preifat a'r trydydd sector i **ehangu a gwella'r gofod busnesau newydd ac egin-fusnesau sydd ar gael** i fusnesau bach a chanolig yng Nghaerdydd.
- Gweithio gyda sefydliadau cenedlaethol i greu strategaeth economaidd sy'n cydnabod **potensial datblygu economaidd chwaraeon a diwylliant**.